

Sut mae penderfynyddion cymdeithasol ac economaidd yn cyfrannu at anghydraddoldebau iechyd.

Safon Uwch Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Pa benderfynyddion cymdeithasol ac economaidd sy'n cyfrannu at anghydraddoldebau iechyd?

Gall penderfynyddion cymdeithasol ac economaidd effeithio ar iechyd mewn ffyrdd cadarnhaol a negyddol. Er enghraifft, os oes gennych ddeiet iach a'ch bod yn gwneud ymarfer corff, bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eich iechyd. Ar y llaw arall, os nad oes gennych ddeiet iach, bydd hyn yn cael effaith negyddol. Dyma rai penderfynyddion cymdeithasol ac economaidd sy'n cyfrannu at anghydraddoldeb iechyd yng Nghymru.

Ffordd o fyw –

- Deiet
- Ymarfer corff
- Yfed alcohol, smygu, cymryd cyffuriau nad ydynt wedi'u rhagnodi
- Gweithgarwch rhywiol
- Gweithgareddau eraill sy'n golygu cymryd risg.

Dylanwadau cymdeithasol a chymunedol ar iechyd –

- Trefniadaeth y teulu a rolau
- Grym a dylanwad y dinesydd
- Cymorth cymdeithasol a rhwydweithiau cymdeithasol
- Cymdogaeth
- Ymdeimlad o berthyn
- Balchder lleol
- Rhaniadau yn y gymuned
- Ynyswch cymdeithasol
- Pwysau cyfoedion
- Hunaniaeth gymunedol
- Ethos diwylliannol ac ysbrydol
- Hiliaeth
- Mathau eraill o allgáu cymdeithasol.

Cyflyrau amgylcheddol sy'n effeithio ar iechyd –

- Amgylchedd adeiledig
- Dyluniad cymdogaeth
- Tai
- Amgylchedd mewnol
- Sŵn
- Ansawdd aer a dŵr
- Atyniad ardal
- Diogelwch cymunedol
- Arogl
- Gwaredu sbwriel
- Peryglon ar y ffordd
- Perygl o anafiadau
- Ansawdd a diogelwch ardaloedd chwarae.

Cyflyrau economaidd sy'n effeithio ar iechyd –

- Diweithdra
- Incwm
- Anweithgarwch economaidd
- Math o gyflogaeth
- Amodau yn y gweithle a mynediad a chyfleoedd mewn perthynas â swyddi, tai, addysg a gwasanaethau gofal.

Mynediad i wasanaethau a'u hansawdd –

- Gwasanaethau meddygol
- Gwasanaethau gofal eraill
- Cyngor ar yrfaedd
- Siopau a gwasanaethau masnachol
- Amwynderau cyhoeddus
- Trafnidiaeth
- Addysg a hyfforddiant
- Technoleg gwybodaeth

Ffactorau amgylcheddol a chynaliadwyedd –

- Polisiâu'r llywodraeth
- Datblygiad economaidd
- Amrywiaeth fiolegol
- Hinsawdd.

Nodweddion personol –

- Rhyw
- Oedran
- Grŵp ethnig
- Ffactorau etifeddol
- Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod
- Crefydd
- Credoau.

Mae llawer o benderfynyddion cymdeithasol ac economaidd sy'n effeithio ar iechyd y genedl a'i phoblogaeth. Mae'r hinsawdd economaidd yn un sydd yn heriol i bobl, gwasanaethau cyhoeddus, y sector preifat a'r llywodraeth. Mae cyfleoedd i wella iechyd yng Nghymru yn gynyddol anodd. Strategaeth y llywodraeth yw hyrwyddo ffyrdd o gydweithio er mwyn mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau iechyd sy'n bodoli yng Nghymru.

Cysyniadau Allweddol

Iechyd – Mae iechyd yn dibynnu ar sawl ffactor ac nid ar bresenoldeb neu absenoldeb clefyd yn unig. Mae penderfynyddion ehangach, neu gymdeithasol, iechyd yn cynnwys yr amodau y caiff pobl eu geni ynddynt ac y maent yn tyfu, yn byw, yn gweithio ac yn heneiddio ynddynt a all hybu eu hiechyd a'u llesiant neu amharu arnynt.

Penderfynyddion cymdeithasol ac economaidd – Yr amryw ffactorau a all effeithio ar iechyd a llesiant. Yn eu plith mae ein hamgylchedd cymdeithasol, ffisegol ac economaidd fel tai, hamdden, cyflogaeth, incwm, lleoliad daearyddol, ansawdd aer ac addysg.

Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau – Mynd i'r afael â'r gwahaniaethau annheg y gellir eu hosgoi o ran iechyd drwy wella sefyllfaoedd cymdeithasol ac economaidd pobl a thrwy osgoi gweithredoedd a all niweidio iechyd.

Cyfrifoldeb unigolion – Grymuso a galluogi pobl i gymryd cyfrifoldeb personol am wella eu hiechyd eu hunain. Mae'n bwysig bod yn ymwybodol y gall rhai ffactorau sy'n cyfrannu at anghydraddoldebau iechyd gael eu hunioni drwy weithredoedd yr unigolyn ei hun, fel rhoi'r gorau i smygu neu fwyta'n fwy iach. Caiff hyn ei annog gan y llywodraeth drwy ymgyrchoedd sy'n annog pobl i fwyta'n fwy iach, gwneud ymarfer corff a rhoi'r gorau i smygu. Mae rhai penderfynyddion nad oes gan yr unigolyn unrhyw reolaeth drostynt fel mynediad i wasanaethau neu lygredd amgylcheddol. Mae angen mynd i'r afael â'r penderfynyddion hyn a'u gwella drwy strategaethau'r llywodraeth a fydd yn arwain, yn y pen draw, at wella iechyd pobl yng Nghymru.

Pwy sy'n debygol o ddioddef fwyaf o anghydraddoldeb iechyd yng Nghymru?

Mae'r rhai sydd fwyaf tebygol o fod dan anfantais a dioddef anghydraddoldebau iechyd yn dibynnu ar y boblogaeth leol, y gymuned a'r ardal lle maent yn byw. Mae rhai grwpiau o unigolion yn dioddef anghydraddoldebau iechyd ble bynnag y maent yn byw, fel plant sy'n byw mewn tldi.

- Yn aml, mae oedran yn ffactor o ran anghydraddoldeb iechyd i blant, pobl ifanc a'r henoed.
- Yn aml, mae incwm yn ffactor ac mae anghydraddoldeb yn fwy tebygol o effeithio pobl sy'n byw ar incwm isel, pobl sy'n ddi-waith a phobl sy'n methu gweithio oherwydd salwch.
- Bydd llawer o grwpiau o bobl yn wynebu anghydraddoldebau iechyd o gymharu â grwpiau eraill o'r boblogaeth, gan gynnwys y rhai sy'n dioddef gwahaniaethu neu anfanteision cymdeithasol eraill, pobl ag anableddau, pobl sy'n ceisio lloches, teithwyr, teuluoedd un rhiant, pobl lesbiaidd a hoyw a rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig.
- Gall materion daearyddol fod yn ffactor hefyd gan fod pobl sy'n byw mewn ardaloedd a ddisgrifir fel ardaloedd ynysig sydd o dan anfantais economaidd yn aml yn ei chael hi'n anoddach i gael gafael ar wasanaethau, a all gael effaith negyddol ar eu hiechyd.



...ond prin yw'r arwyddion bod y bylchau rhwng yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf a'r ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yn lleihau.

